

Sut mae'r Partïon yn adrodd ar amrywiaeth genetig i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol a sut gellir gwella'r adrodd a'r monitro?

CEFNDIR

- **Mae bioamrywiaeth yn wynebu** ystod eang o heriau, gan gynnwys diraddio cynefinoedd, newid yn yr hinsawdd, llygredd, a phathogenau sy'n lledaenu'n gyflym. Mae amrywiaeth genetig - yr amrywiad o fewn rhywogaeth - yn chwarae rhan ganolog yng ngallu poblogaeth i addasu a pharhau i ymateb i amgylchedd sy'n newid. Mae amrywiaeth genetig yn un o dair lefel o fioamrywiaeth a gydnabyddir gan y Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol, ynghyd â pholisïau cadwraeth cenedlaethol a rhyngwladol eraill.
- **Fodd bynnag, hyd yn hyn nid yw'r amcangyfrifon o** statws a thueddiadau amrywiaeth genetig yn cael eu hintegreiddio'n rheolaidd i raglenni cadwraeth neu dargedau bioamrywiaeth. Gellir egluro hyn yn rhannol gan natur dechnegol dulliau genetig, a'r datgysylltiad rhwng ymchwil geneteg ac ymarferwyr cadwraeth. Cydnabyddir diffyg dangosyddion dibynadwy fel bwlch data allweddol ar gyfer y fframwaith bioamrywiaeth ôl-2020.
- **I ddeall yn well** sut mae Partïon Llofnodol y Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol yn asesu ac amddiffyn amrywiaeth genetig, bu i ni gynnal adolygiad trylwyr o 114 o Adroddiadau Cenedlaethol (5^{ed} a 6^{ed}) i benderfynu sut yr adroddodd gwledydd am weithredoedd, defnyddiau, bygythiadau, tueddiadau a rhywogaethau blaenoriaeth ar gyfer monitro a chadwraeth amrywiaeth genetig.

ARGYMHELLION

Nod ein hargymhellion i Ysgrifenyddiaeth a Phartïon y Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol yw gwella dulliau monitro ac amddiffyn amrywiaeth genetig ar gyfer dyfalbarhad tymor hir poblogaethau ac ecosystemau iach, gan gyflawni nod craidd y Confensiwn.

1

Cynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth o rôl ganolog amrywiaeth genetig mewn bioamrywiaeth, amddiffyn a dogfennu gwybodaeth frodorol a lleol, a meithrin gallu ymhlith ymarferwyr cadwraeth i fonitro a rheoli amrywiaeth genetig.

2

Datblygu a gweithredu canllawiau safonedig ar gyfer rheolaeth enetig arferol, monitro tymor hir, ac adrodd ar statws amrywiaeth genetig, bygythiadau, gweithredoedd a thueddiadau ar gyfer rhywogaethau gwyllt ac economaidd-gymdeithasol pwysig.

3

Gweithredu gwell targedau a dangosyddion sy'n canolbwyntio ar amrywiaeth genetig (Hoban et al. 2020) ar gyfer fframwaith y Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol ôl-2020 i alluogi monitro tueddiadau amrywiaeth genetig a symud tuag at gyrraedd y targedau hyn.

4

Diwygio templedi Adroddiadau Cenedlaethol y Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol a darparu arweiniad ac adnoddau i annog a galluogi adrodd cyson a chllir ar fonitro amrywiaeth genetig *in-situ* ac *ex-situ* mewn rhywogaethau gwyllt a chymdeithasol-economaidd.

Gellir gweld yr adroddiad llawn gydag argymhellion manwl yn: Hoban et al. 2020. Dadansoddiad o gamau gweithredu, dangosyddion a thargedau amrywiaeth genetig mewn 114 o Adroddiadau Cenedlaethol i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol. (rhagbrint)

PWYNTIAU ALLWEDDOL

- Er bod y mwyafrif o wledydd yn cydnabod pwysigrwydd amrywiaeth genetig, ni chyfeiriodd 21% o'r Adroddiadau Cenedlaethol (6^{ed}) at darged amrywiaeth genetig.
- Dim ond 5% o wledydd a nododd ddangosyddion yn seiliedig ar astudiaethau genetig neu amddiffyn gwybodaeth gynhenid a lleol am amrywiaeth genetig.
- Roedd y camau i warchod amrywiaeth genetig yn canolbwyntio'n bennaf ar rywogaethau amaethyddol (cnydau wedi'u tyfu a'u perthnasau gwyllt, ac anifeiliaid fferm) yn hytrach na rhywogaethau gwyllt.
- Roedd y tri dangosydd amrywiaeth genetig uchaf a adroddwyd gan wledydd yn cynnwys nifer yr adnoddau genetig mewn cyfleusterau cadwraeth, nifer yr adnoddau genetig planhigol sy'n hysbys / a arolygwyd, a statws Rhestr Goch. Fodd bynnag, nid yw'r dangosyddion hyn yn mesur erydiad genetig yn ddibynadwy.
- At ei gilydd, mae'r sylw cyfyngedig i fonitro amrywiaeth genetig, yn enwedig mewn rhywogaethau nad ydynt yn bwysig yn economaidd, yn rhwystro'r gallu i asesu newid amrywiaeth genetig yn fyd-eang dros amser.

I'R DYFODOL

Mae gan y CBD a'r Partïon llofnodedig gyfle i sicrhau bod y targedau amrywiaeth genetig yn cael eu gweithredu'n effeithiol i wella cadwraeth bioamrywiaeth. Mae'r Grŵp Arsylwadau Daear Rhwydwaith Arsylwi Bioamrywiaeth (GEO BON) Gweithgor Cyfansoddiad Genetig a'i bartneriaid yn medru cynnig gwybodaeth arbenigol hir-dymor i'r CBD a'r Partïon, wrth iddynt ddatblygu a gweithredu targedau i fonitro ac amddiffyn amrywiaeth genetig.

Paratowyd gan Grŵp Arsylwadau Daear Rhwydwaith Arsylwi Bioamrywiaeth (GEO BON) Gweithgor Cyfansoddiad Genetig ar gyfer pobl sydd â diddordeb yn y strategaeth ôl-2020.

Cyswllt: Dr. Sean Hoban, shoban@mortonarb.org a Dr. Margaret Hunter, mhunter@usgs.gov